



Cyfansoddiad

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

(Cymdeithas Anghorfforedig)

# Cefndir

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMPA) yn undeb myfyrwyr o fewn ystyr Deddf Addysg 1994. Mae UMPA wedi ymrwmo i fuddiannau a lles addysgol ei aelodau.

Bydd UMPA yn wastad ceisio:

- a. sicrhau bod amrywioldeb ei aelodaeth yn cael ei gydnabod a bod mynediad cyfartal ar gael i'w holl Aelodau, beth bynnag fo'u tarddiad neu dueddfryd;
- b. dilyn ei nodau ac amcanion yn annibynnol o unrhyw blaid wleidyddol neu grŵp crefyddol; ac yn
- c. hyrwyddo cyfleoedd cyfartal drwy weithredu cadarnhaol o fewn y gyfraith i hwyluso cyfranogiad grwpiau y camwahanieithir yn eu herbyn gan y gymdeithas.

Mae'r Cyfansoddiad hwn wedi ei strwythuro i roddi awdurdod rhesymol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr reoli trafodion UMPA yn broffesiynol. Mae'r Aelodau'n mwynhau'r hawl, sy'n rhaid ei gweithredu yn unol â chyfraith elusennol, i ethol cyfran o'r Ymddiriedolwyr ac i ddiswyddo'r holl Ymddiriedolwyr. Rhaid i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr roddi'r ystyriaeth fwyaf i farn Aelodau.

Dan Ddeddf Addysg 1994, mae gan Brifysgol Aberystwyth ddyletswydd statudol i sicrhau fod UMPA yn gweithredu'n deg a democrataidd a'i fod yn cael ei ddal i gyfrif am ei reolaeth ariannol. Mae UMPA felly'n gweithio ochr-yn-ochr â Phrifysgol Aberystwyth wrth sicrhau fod trafodion UMPA yn cael eu cynnal yn gywir a bod anghenion addysgol a lles Aelodau UMPA yn cael eu diwallu.

# Tabl Cynnwys a Sylwadau

Enw, Amcanion a Phwerau	2
<i>Mae'r adran hon yn disgrifio'r mudiad, ei ddiben, y gweithgareddau y gall ymgymryd â nhw a ffiniau ei waith. Mae'n disgrifio'r hyn sy'n digwydd pe bai'r mudiad yn cael ei ddiddymu a sut y gellir newid y cyfansoddiad.</i>	
Aelodaeth	9
<i>Mae'r adran hon yn disgrifio pwy yw aelodau undeb y myfyrwyr.</i>	
Cyfarfod Cyffredinol a'r Senedd	11
<i>Mae'r adran hon yn disgrifio sut y gelwir Cyfarfodydd Cyffredinol a pha fusnes a ellir ei drafod ynddynt.</i>	
Pleidlais o'r Holl Fyfrwyr	13
<i>Mae'r adran hon yn disgrifio sut y gellid galw Pleidlais o'r Holl Fyfrwyr</i>	
Ymddiriedolwyr	13
<i>Mae'r adran hon yn disgrifio pwy yw'r ymddiriedolwyr, sut y penodir hwy, sut y gellir eu diswyddo a'u pwerau a sut y caiff cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr eu galw, eu rhedeg a sut y gall ymddiriedolwyr wneud penderfyniadau.</i>	
Pwyllgor Gwaith	23
<i>Mae'r adran hon yn disgrifio pwy yw'r Pwyllgor Gwaith, sut y penodir hwy, sut y gellir eu diswyddo a'u pwerau.</i>	
Indemniad	24
Diffiniadau a Dehongliadau	26

## Diffiniadau a Dehongliadau

1. Caiff ystyr unrhyw derm a ddiffinir yn y Cyfansoddiad hwn ei osod allan yng Nghymal 116. Os oes unrhyw anghydfod yn codi parthed dehongli'r Cyfansoddiad hwn neu unrhyw un o'r Is- Ddeddfau neu'r Rheoliadau, caiff ei ddatrys gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

## Enw

2. Bydd undeb myfyrwyr o'r enw Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (ac yn y Cyfansoddiad hwn fe'i gelwir yn "UMPA").

## Amcanion

3. Amcanion UMPA yw cyfoethogi addysg myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth er budd y cyhoedd drwy:
  - 3.1 hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn ystod eu cwrs astudiaeth a chynrychioli, cynorthwyo a chynghori myfyrwyr;
  - 3.2 bod yn sianel gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Aberystwyth ac unrhyw gorff allanol arall; a
  - 3.3 darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, ac sy'n ymwneud â chwaraeon a hamdden, yn ogystal â fforymau ar gyfer trafodaeth er mwyn datblygiad personol ein myfyrwyr.

## Pwerau

- 4 Er mwyn cyflawni ei amcanion, ond heb fod at unrhyw ddibenion eraill, caiff UMPA:
  - 4.1 ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer Aelodau;
  - 4.2 sefydlu, cynorthwyo, hyrwyddo a gweithredu rhwydwaith o weithgareddau myfyrwyr ar gyfer Aelodau;
  - 4.3 cefnogi gweithgareddau RAG neu weithgareddau codi arian cyffelyb ar ran yr Aelodau at achosion elusennol, gan gynnwys y ddarpariaeth o gymorth gweinyddol, cyfleusterau bancio a gweithredu fel ymddiriedolwr i ofalu am unrhyw arian a godir.
  - 4.4 Ar ei ben ei hun neu ynghyd â mudiadau eraill:
    - 4.4.1 ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu;
    - 4.4.2 cheisio dylanwadu ar farn y cyhoedd; a
    - 4.4.3 gwneud cyflwyniadau a cheisio dylanwadu ar gyrff a sefydliadau llywodraethol ac eraill parthed ad-drefnu a datblygiad. Cyfyngir gweithgareddau o'r fath i

weithgareddau y gall elusen yn Lloegr a Chymru ymgymryd yn gywir â hwy, a chyn belled â bod UMPA yn cydymffurfio â'r Ddeddf Addysg ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau; gweithrediad o unrhyw bolisiau priodol, deddfwriaeth a rheoliadau, cyn belled â'u bod i gyd yn

- 4.5 ysgrifennu, gwneud, comisiynu, argraffu, cyhoeddi neu ddsbarthu defnyddiau neu wybodaeth neu'n cynorthwyo yn y gweithgareddau hyn;
- 4.6 hyrwyddo, sbarduno, datblygu neu gynnal addysg a hyfforddiant ac yn trefnu, darparu neu'n cynorthwyo gydag arddangosfeydd, darlithoedd, cyfarfodydd, seminarau neu ddsbarthiadau;
- 4.7 hyrwyddo, annog, cyflawni neu gomisiynu ymchwil, arolygon, astudiaethau neu waith arall a chyhoeddi'r canlyniadau defnyddiol;
- 4.8 darparu neu benodi eraill i ddarparu cyngor, arweiniad, cynrychiolaeth ac eiriolaeth,
- 4.9 cydweithredu ag elusennau a chyrrff eraill a chyfnewid gwybodaeth a chyngor â hwy;
- 4.10 dod yn aelod neu gydymaith o elusennau a chyrrff eraill
- 4.11 cynorthwyo, sefydlu neu gyfuno ag elusennau eraill sydd â'r un amcanion neu rai cyffelyb i amcanion UMPA, a gweithredu fel, neu benodi ymddiriedolwyr, enwebeion neu gynrychiolwyr i reoli elusennau o'r fath;
- 4.12 prynu neu gaffael unrhyw eiddo, asedau, dyledion ac ymrwymadau unrhyw elusen sydd ag amcanion cyffelyb i rai UMPA;
- 4.13 ymgorfforaethu a throsglwyddo ei holl asedau i endid cyfreithiol elusennol ag iddo atebolrwydd cyfyngedig, a diddymu ar unrhyw bryd yn dilyn ymgorfforiad a throsglwyddiad o'r fath os yw'r Ymddiriedolwyr yn ystyried bod gwneud hynny yn briodol
- 4.14 codi arian a gwahodd a derbyn cyfraniadau gan unrhyw berson cyn belled nad yw UMPA yn cynnal unrhyw weithgaredd masnachol trethadwy wrth godi arian;
- 4.15 benthycu a chodi arian ar y fath delerau a sicrwydd y creda UMPA i fod yn addas (ond dim ond yn unol â'r cyfyngiadau a osodir gan ddeddf Elusennau 2011);
- 4.16 prynu, prydlesi, llogi neu dderbyn eiddo o unrhyw fath gan gynnwys tir, adeiladau a chyfarpar a'i gynnal a'i gadw ar gyfer ei ddefnyddio;
- 4.17 gwerthu, rheoli, prydlesi, morgaisio, cyfnewid, cael gwared â, neu ymdrin ag unrhyw ran o'i eiddo (ond dim ond yn unol â'r cyfyngiadau a osodir gan ddeddf Elusennau 2011);
- 4.18 rhoddi neu fenthycu arian a chynnig sicrwydd:
- 4.19 gosod arian o'r neilltu at ddibenion arbennig neu wrth gefn ar gyfer gwariant yn y dyfodol;
- 4.20 buddsoddi ac ymdrin ag arian UMPA nad oes ei angen ar unwaith ar gyfer ei amcanion mewn buddsoddiadau, soddgyfrannau neu eiddo;
- 4.21 dirprwyo awdurdod dros reoli buddsoddiadau i arbenigwr ariannol sydd â'r profiad angenrheidiol, cyn belled bod:

- 4.21.1 y polisi buddsoddi wedi ei osod mewn ysgrifen ar gyfer yr arbenigwr ariannol gan yr Ymddiriedolwyr;
  - 4.21.2 bod pob trafodiad yn cael ei adrodd yn ôl ar unwaith i'r Ymddiriedolwyr;
  - 4.21.3 bod perfformiad y buddsoddiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan yr Ymddiriedolwyr;
  - 4.21.4 bod gan yr Ymddiriedolwyr yr hawl i ddileu'r dirprwyad ar unrhyw amser;
  - 4.21.5 bod y polisi buddsoddiad a'r trefniadau ar gyfer dirprwyo awdurdod yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn;
  - 4.21.6 bod y taliadau a wneir i'r arbenigwr ariannol ar raddfa neu lefel a gytunir ymlaen llaw, a bod yr Ymddiriedolwyr yn cael eu hysbysu cyn gynted y cânt eu derbyn; ac
  - 4.21.7 na chaiff yr arbenigwr ariannol wneud unrhyw beth sydd tu allan i bwerau'r Ymddiriedolwyr;
- 4.22 trefnu fod buddsoddiadau neu eiddo arall sy'n perthyn i UMPA yn cael ei ddal yn enw enwebai (boed yn gwmni neu'n bartneriaeth â chyfrifoldeb cyfyngedig sydd wedi ei gofrestru neu sydd â man busnes sefydledig yn Lloegr a Chymru) dan reolaeth yr Ymddiriedolwyr neu arbenigwr ariannol sy'n gweithredu yn ôl eu cyfarwyddiadau ac i dalu unrhyw ffi resymol angenrheidiol;
- 4.23 benthycu arian a rhoi credyd i, cymryd soddgyfrannau ar gyfer benthyciadau o'r fath a sicrwydd o berfformiad cytundebau gan unigolyn neu gwmni;
- 4.24 agor a gweithredu cyfrifon banc a chyfleusterau eraill ar gyfer bancio a thynnu, derbyn, arnodi, cyd-drafod, disgowntio neu gyflawni offerynnau y gellir eu cyd-drafod megis nodion addewid neu ddogfennau cyfnewid;
- 4.25 masnachu fel rhan o gyflawni unrhyw un o'i amcanion;
- 4.26 sefydlu neu gaffael cwmnïau dibynnol i weithredu unrhyw fasnach drethadwy;
- 4.27 yn ddibynnol ar Gymal 5 (Cyfyngiadau ar fuddion preifat), cyflogi a thalu staff, gweithwyr proffesiynol neu gynghorwyr eraill;
- 4.28 cyflwyno pensiynau a buddion ymddeoliad i weithwyr UMPA ac i'w dibynyddion a thanysgrifio i gronfeydd neu gynlluniau ar gyfer darparu pensiynau a buddion ymddeoliad ar gyfer staff UMPA a'u dibynyddion.
- 4.29 Gwneud popeth arall cyfreithlon sy'n hyrwyddo amcanion UMPA.

## 5 Cyfyngiadau ar Fuddion Preifat

- 5.1 Defnyddir incwm ac eiddo UMPA at ddibenion hyrwyddo ei amcanion yn unig.
- 5.2 Ac eithrio'r hyn a nodir isod, ni chaiff unrhyw ran o incwm nac eiddo UMPA ei dalu na'i drosglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ffurf difidend, bonws nac unrhyw

fath arall o elw i Aelod o UMPA. Ni fydd hyn yn atal unrhyw daliad mewn da ffydd gan UMPA, er enghraifft:

- 5.2.1 unrhyw daliad a wneir i unrhyw Aelod yn rhinwedd bod â hawl i dderbyn buddion gan UMPA;
- 5.2.2 ad-daliad rhesymol a chywir i unrhyw Aelod am nwyddau neu wasanaethau a ddarperir i UMPA, os yw Aelod o'r fath yn Ymddiriedolwr, bydd Cymal 5.3 yn berthnasol;
- 5.2.3 llog ar unrhyw arian y benthycir i UMPA ar raddfa resymol a chywir: ac
- 5.2.4 unrhyw rent rhesymol a chywir am adeilad a osodir gan Aelod i UMPA.

5.3 Ac eithrio fel y nodir isod, ni chaiff unrhyw Ymddiriedolwr werthu nwyddau, gwasanaethau na buddiannau mewn tir i'r Undeb; cael ei g/chyflogi gan, neu dderbyn tâl gan, yr Undeb; na derbyn unrhyw fuddion ariannol eraill gan yr Undeb. Ni chaiff hyn atal unrhyw daliad mewn da ffydd gan yr Undeb o:

- 5.3.1 Ac eithrio fel y nodir isod, ni chaiff unrhyw Ymddiriedolwr werthu nwyddau, gwasanaethau na buddiannau mewn tir i'r Undeb; cael ei g/chyflogi gan, neu dderbyn tâl gan, yr Undeb; na derbyn unrhyw fuddion ariannol eraill gan yr Undeb. Ni chaiff hyn atal unrhyw daliad mewn da ffydd gan yr Undeb o: unrhyw daliad a wneir i unrhyw Ymddiriedolwr neu Berson Cysylltiedig yn rhinwedd bod â hawl i dderbyn buddion gan yr Undeb;
- 5.3.2 treuliau rhesymol a chywir yr Ymddiriedolwyr;
- 5.3.3 tâl rhesymol a chywir i unrhyw Ymddiriedolwr Sabothol neu Berson Cysylltiedig am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i'r Undeb ar gyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr cyn belled:
  - 5.3.3.1 er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd awdurdod dan y ddarpariaeth hon yn ymestyn i dalu Ymddiriedolwyr Sabothol a Phersonau Cysylltiedig sydd dan gytundeb cyflogaeth gyda'r Undeb;
  - 5.3.3.2 yn ddibynnol ar Gymal 5.3.3(a)], na fydd yr awdurdod dan y ddarpariaeth hon yn ymestyn i'r gwasanaeth o weithredu fel Ymddiriedolwr;
  - 5.3.3.3 os yw'r sawl a gaiff ei d/thalu'n Ymddiriedolwr, rhaid dilyn y drefn a ddisgrifir yng Nghymal 96 (Gwrthdaro o ran Buddiannau) wrth ystyried penodi'r Ymddiriedolwr ac o ran unrhyw benderfyniad arall parthed y taliad a awdurdodir gan y ddarpariaeth hon;
  - 5.3.3.4 os yw'r sawl a gaiff ei d/thalu'n Berson Cysylltiedig, rhaid i'r Ymddiriedolwr perthnasol ddilyn y drefn a ddisgrifir yng Nghymal 96 (Gwrthdaro o ran Buddiannau) o ran unrhyw benderfyniad arall parthed Person Cysylltiedig o'r fath;

- 5.3.3.5 yn ddibynnol ar Gymal [5.5], ni chaiff y ddarpariaeth hon berthyn i fwy na hanner yr Ymddiriedolwyr mewn unrhyw flwyddyn ariannol (ac at y dibenion hyn, ystyrir y fath ddarpariaeth i fod yn berthnasol i Ymddiriedolwr os yw'n berthnasol i berson sy'n Berson Cysylltiedig parthed yr Ymddiriedolwr hwnnw/honno; ac
- 5.3.3.6 y cydymffurfir bob amser â darpariaethau'r Ddeddf Addysg;
- 5.3.4 llog ar arian a fenthycwyd gan Ymddiriedolwr neu berson Cysylltiedig i'r Undeb ar raddfa resymol a chywir;
- 5.3.5 unrhyw rent rhesymol a chywir am adeilad a osodir gan unrhyw Ymddiriedolwr neu Berson Cysylltiedig i'r Undeb;
- 5.3.6 unrhyw bremiwm rhesymol a chywir parthed yswiriant indemniad a weithredir yn unol â Chymal 114;
- 5.3.7 unrhyw daliad a wneir i unrhyw Ymddiriedolwr neu swyddog dan y darpariaethau indemniad a osodir yng Nghymal 114; ac
- 5.3.8 unrhyw daliadau a awdurdodir gan y Comisiwn Elusennau.
- 5.4 Yng Nghymalau 5.2 a 5.3.1, dylid darllen unrhyw gyfeiriadau at yr Undeb fel cyfeiriadau at yr Undeb a/neu unrhyw Is-Gwmni.
- 5.5 Lle bo swydd wag y codi ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac o'r herwydd bod Cymal 5.3.3 yn berthnasol i fwy na hanner yr Ymddiriedolwyr, gall yr Undeb barhau i dalu ei Ymddiriedolwyr Sabothol ac unrhyw Bersonau Cysylltiedig sy'n derbyn taliad yn unol â Chymal 5.3.3 cyn belled â bod yr Undeb yn gwneud pob ymdrech resymol i lenwi'r swydd wag cynted â phosibl.

## Ymgorfforaethu

- 6 Caiff Aelodau mewn Cyfarfod y Senedd, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu drwy Bleidlais o'r Holl Fyfrwyr awdurdodi'r Ymddiriedolwyr i drosglwyddo holl asedau a dyledion UMPA i endid â chyfrifoldeb cyfyngedig a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig neu sydd â'r un amcanion neu rai cyffelyb, a diddymu UMPA ar unrhyw amser yn dilyn y trosglwyddiad os yr ystyrir hynny yn briodol. Ni all trosglwyddiad o'r fath ond digwydd yn dilyn cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Brifysgol.

## Diddymu

- 7 Os oes unrhyw eiddo yn weddill ar ôl i UMPA gael ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu ac ar ôl i'r holl ddyledion gael eu talu, ni chaiff ei dalu na'i ddostrarthu ymysg Aelodau UMPA. Yn hytrach, caiff ei roddi neu ei drosglwyddo i Brifysgol Aberystwyth.



## Gwelliannau i'r Cyfansoddiad

- 8 Bydd yr Ymddiriedolwyr a Phrifysgol Aberystwyth yn adolygu'r Cyfansoddiad bob pum mlynedd, o'r dyddiad y daw'r Cyfansoddiad hwn i rym.
- 9 Dim ond Aelodau Cyffredin ac Ymddiriedolwyr UMPA gaiff gyflwyno cynigion i newid y Cyfansoddiad, Atodlenni, Is-Ddeddfau a Rheoliadau.
- 10 Ni wneir unrhyw welliant i'r Cyfansoddiad hwn a fyddai'n golygu bod UMPA yn peidio bod yn elusen.
- 11 Ni ellir newid Cymal 3 (Amcanion) a Chymal 5 (Cyfyngiadau ar fuddion preifat) heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Comisiwn Elusennau.
- 12 Ac eithrio pan fo'r gwelliant i'r Cyfansoddiad yn welliant sy'n deillio o newid yn yr Is-Ddeddfau (er enghraifft, rhif neu enwau penawdau Cymalau), gellir newid y Cyfansoddiad drwy:
  - 12.1 Gynnig gan yr Aelodau wedi ei basio mewn Cyngor yr Undeb neu Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol gan fwyafrif sydd o leiaf 75% o'r rheiny sy'n bresennol ac yn pleidleisio; neu
  - 12.2 Gynnig wedi ei basio gyda mwyafrif syml o'r Aelodau sy'n pleidleisio mewn Pleidlais o'r Holl Fyfyrrwyr cyn belled â bod o leiaf 500 o Aelodau Cyffredin wedi bwrw pleidlais, a bod Prifysgol Aberystwyth y cymeradwyo'r gwelliannau (fel sy'n angenrheidiol at ddibenion cydymffurfiad ag Adran 22 o'r Ddeddf Addysg).

## Atodlenni ac Is-Ddeddfau

- 13 Bydd gan Fwrdd y Llywodraethwyr, Cyfarfod o'r Senedd neu Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol bŵer o bryd i'w gilydd i wneud, diddymu neu newid Atodlenni ac Is-Ddeddfau parthedrheolaeth yr Undeb a'i arferion gweithredu, cyn belled nad yw Atodlenni neu Is-Ddeddfau o'r fath yn anghyson â'r Cyfansoddiad hwn.

## Anghysondebau

- 14 Ni chaiff gweithrediadau mewn unrhyw gyfarfod na chynnig na llunio unrhyw benderfyniad eu hannilysu oherwydd unrhyw anffurfioldeb neu anghysondeb damweiniol (gan gynnwys unrhyw hepgor anfwriadol i gyflwyno neu fethu â derbyn rhybudd) neu oherwydd bod unrhyw fusnes yn cael ei drafod na nodwyd yn y rhybudd.

# Aelodaeth

## Aelodau

- 15 Oni nodir i'r gwrthwyneb, cyfeiria aelodau at Aelodau Cyffredin, Cysylltiedig ac er Anrhydedd.

## Aelodau Cyffredin

- 16 Aelodau Cyffredin UMPA fydd:
- 16.1 Pob Myfyriwr sydd heb optio allan drwy hysbysu Prifysgol Aberystwyth o'i ddymuniad/dymuniad i beidio bod yn Aelod Cyffredin o UMPA; a'r
- 16.2 Swyddogion Ymddiriedolwyr UMPA.
- 17 Ni ellir trosglwyddo aelodaeth, a daw i ben ar farwolaeth. Bydd Aelod Cyffredin yn peidio â bod yn Aelod Cyffredin o UMPA yn awtomatig os yw'n:
- 17.1 peidio â bod yn Fyfyriwr;
- 17.2 peidio â bod yn Swyddog Ymddiriedolwr;
- 17.3 optio allan o aelodaeth drwy roi rhybudd ysgrifenedig i UMPA yn unol ag is-ddeddf 6; neu
- 17.4 mewn achos Aelodau Cyffredin, ac eithrio Swyddogion Ymddiriedolwyr, fod cynnig yn cael ei basio mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle mae o leiaf hanner yr Ymddiriedolwyr sy'n bresennol yn penderfynu y dylid gwahardd yr Aelod Cyffredin ar y sail y byddai iddynt barhau i fod mewn aelodaeth yn niweidiol, neu'n debygol o fod yn niweidiol, i fuddiannau UMPA. Ni chaiff cynnig o'r fath ei basio oni fydd yr Aelod Cyffredin wedi derbyn o leiaf 14 diwrnod clir o rybudd fod y cynnig i gael ei gyflwyno, ganesbonio'n fanwl yr amgylchiadau honedig sy'n cyfiawnhau'r gwaharddiad, a bod yr unigolynwedi cael cyfle rhesymol i gael gwrandawriad neu o wneud cyflwyniad ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr.
- 18 Bydd Cofrestr electronig o Aelodau Cyffredin yn bodoli, sy'n cynnwys manylion o'r rheiny a gofrestrwyd fel myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth.
- 19 Bydd gan Aelodau Cyffredin UMPA yr hawl i'r buddion a osodir allan yn y Cod Ymarfer.

## Aelodau Cysylltiedig

- 20 Caiff Pwyllgor Gwaith yr Undeb gymeradwyo neu ddi-ddymu aelodaeth gysylltiedig unrhyw berson o UMPA fel y gwelant yn dda. Bydd Pwyllgor Gwaith yr Undeb yn penderfynu ar ffurf ymgeisio am aelodaeth gysylltiedig, a bydd aelodaeth gysylltiedig yn ddibynnol ar y fath hawliau a chyfrifoldebau ag yr ystyria Pwyllgor Gwaith yr Undeb i fod yn briodol.
- 21 Ni fydd Aelodau Cysylltiedig yn Aelodau at ddibenion y Cyfansoddiad hwn ac ni fydd ganddynt hawl i bleidleisio ar unrhyw fater.

## Aelodau er Anrhydedd

- 22 Caiff y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol benderfynu cyflwyno aelodaeth oes er anrhydedd o UMPA i'r bobl hynny yr ystyria i fod yn gymwys. Caiff Pwyllgor Gwaith yr Undeb benderfynu ar ffurf ymgeisio am aelodaeth er anrhydedd, a bydd aelodaeth oes er anrhydedd yn ddibynnol ar y fath hawliau a chyfrifoldebau ag y penderfyna Pwyllgor Gwaith yr Undeb i fod yn briodol.
- 23 Ni fydd Aelodau Oes er Anrhydedd yn Aelodau Cyffredin at ddibenion y Cyfansoddiad hwn a ni fyddant yn gymwys i bleidleisio ar unrhyw fater.

## Cyfarfodydd

- 24 Oni bai ei fod yn cael ei alw'n wahanol, bydd cyfarfodydd yn cyfeirio at Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol, Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig neu'r Senedd.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

- 25 Bydd UMPA yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol unwaith ym mhob blwyddyn galendr.
  - 25.1 Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar amser ac mewn lleoliad yr ystyria'r Ymddiriedolwyr i fod yn addas i ganiatáu'r nifer fwyaf posib o Aelodau Cyffredin i'w fynychu.
  - 25.2 Ni fydd mwy nag 12 mis rhwng dyddiad un o'r Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol a'r nesaf.

## Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig

- 26 Gall yr Ymddiriedolwyr alw cyfarfod cyffredinol arbennig unrhyw bryd.
- 27 Rhaid i'r Ymddiriedolwyr alw cyfarfod cyffredinol arbennig os ydynt yn derbyn cais ysgrifenedig i wneud hynny gan o leiaf 10 aelod neu ddegfed ran o'r aelodaeth, pa bynnag un sydd fwyaf. Rhaid i'r cais nodi natur y busnes sydd i'w drafod. Os yw'r ymddiriedolwyr yn methu â chynnal y cyfarfod o fewn wyth-diwrnod-ar-hugain o'r cais, gall yr aelodau fynd ati i alw cyfarfod cyffredinol arbennig, ond os ydynt yn gwneud hynny, rhaid iddynt gydymffurfio â darpariaethau'r cyfansoddiad hwn.

## Y Senedd

- 28 Bydd y Senedd yn cyfarfod ar amser ac mewn lleoliad a benderfynir arnynt gan yr Ymddiriedolwyr neu Bwyllgor Gwaith UMPA (ond yn ddibynnol ar Atodlen I.1). Bydd yr Ymddiriedolwyr yn galw Cyfarfod o Gynulliad y Senedd pan fyddant yn derbyn cais i wneud hynny wedi ei arwyddo gan o leiaf 100 o Aelodau Cyffredin. Ond ni cheir cynnal unrhyw Gyfarfod y Senedd yn ystod y gwyliau nac yn ystod cyfnod arholiadau.
- 29 Bydd y Senedd:

29.1 yn cynrychioli llais y Myfyrwyr;

- 29.2 gall, yn ddibynnol ar Gymal 71, osod Polisi UMPA a chyfeirio Polisi at Bleidlais o'r Holl Fyfyrrwyr o'r Aelodau Cyffredin (yn unol ag Atodlen 1.4);
- 29.3 gall lunio, diddymu a newid y Cyfansoddiad, Atodlenni, Is-Ddeddfau a Rheoliadau (yn unol â Chymal 12 a 13 ac yn ddibynnol ar Atodlen 1.4);
- 29.4 derbyn a chadarnhau adroddiad gan yr Ymddiriedolwyr: a
- 29.5 derbyn a chadarnhau adroddiad gan y Swyddogion Llawn-amser.

Bydd trafodion Cyfarfodydd o Gyngor yr Undeb a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol yn unol â'r hyn a osodir yn Atodlen 1.

## Aelodaeth

- 30 Bydd Aelodaeth o'r Senedd fel yr hyn a amlinellir yn Atodlen 1.2.

## Lleoliad Cyfarfodydd

- 31 Gellir cynnal Cyfarfodydd o Gyngor yr Undeb a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol mewn un lleoliad neu ar yr un pryd mewn dau leoliad ar wahân gyda chyswllt cyfamserol fideo, clywedol neu arall rhwng pob lleoliad. Ar ddechrau Cyfarfodydd o'r fath, rhaid i bob lleoliad fynegi, drwy bleidlais fwyafrifol, eu bod yn fodlon â'r trefniadau a'r dechnoleg.

## Hyd y Rhybudd

- 32 Caiff pob Cyfarfod o Gyngor yr Undeb a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol ei alw drwy roi o leiaf 14 diwrnod clir o rybudd ysgrifenedig. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion; rhaid i'r dyddiad hwn fod o leiaf tri diwrnod clir cyn dyddiad y Cyfarfod.

## Cynnwys y Rhybudd

- 33 Bydd pob rhybudd sy'n galw Cyfarfod o Gynulliad Cyngor yr Undeb yn cynnwys lleoliad, dyddiad ac amser y Cyfarfod a natur cyffredinol y busnes sydd i'w drafod. Os yw'r cyfarfod yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol, rhaid i'r hysbysiad ddweud hynny a bydd y busnes sydd i'w drafod yn cynnwys:
  - 33.1 Cadarnhau cofnodion y CCB blaenorol;
  - 33.2 Derbyn adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar weithgareddau UMPA ers y CCB blaenorol;
  - 33.3 Derbyn cyfrifon UMPA ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol;
  - 33.4 Penodiad yr archwilwyr;
  - 33.5 Cymeradwyo'r rhestr o ymaelodaethau UMPA; ac
  - 33.6 Agor cwestiynau i'r Ymddiriedolwyr gan yr Aelodau Cyffredin.

## Cyflwyno'r Rhybudd

- 34 Cyflwynir rhybudd ar gyfer Cyfarfodydd o Gyngor yr Undeb a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol i'r Ymddiriedolwyr, y Brifysgol ac unrhyw un sy'n mynychu UMPA.

## Cworwm

- 35 Ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn Cyfarfod y Senedd na Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol oni fydd cworwm yn bresennol. Yn achos Cyfarfod o Gynulliad Cyngor yr Undeb, 50 o'r rheiny sydd â'r hawl i bleidleisio ar y busnes sydd i'w drafod fydd y cworwm. Yn achos Cyfarfod o Gynulliad Cyngor yr Undeb, 100 o bobl sydd â'r hawl i bleidleisio ar y busnes syddi'w drafod fydd y cworwm.
- 36 Os nad oes cworwm o'r fath yn bresennol o fewn hanner awr o'r amser a neilltuwyd ar gyfer y Cyfarfod, caiff y Cyfarfod ei ohirio tan yr un diwrnod yr wythnos ganlynol ar yr un amser ac yn yr un lle, neu i ddiwrnod, amser a lleoliad arall yn ôl yr hyn a benderfynir gan yr Ymddiriedolwyr. Os nad oes cworwm yn bresennol o fewn hanner awr o'r amser a neilltuwyd ar gyfer y cyfarfod a ohiriwyd, yna ystyrir yr Aelodau sy'n bresennol i ffurfio cworwm.

## Cadeirydd

- 37 Yn unol â darpariaethau Atodlen 1.1, bydd Cadeirydd yr Undeb yn llywyddu fel cadeirydd pob Cyfarfod.

## Presenoldeb mewn Cyfarfodydd

- 38 Caiff pob Ymddiriedolwr ac Aelod fynychu a siarad mewn unrhyw Gyfarfod o Gyngor yr Undeb neu Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- 39 Gall y Cadeirydd, drwy benderfyniad gan Gyfarfod o Gyngor yr Undeb neu Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ganiatáu i unrhyw berson arall fynychu a siarad yn y Cyfarfod.

## Gohirio Cyfarfodydd

- 40 Caiff y Cadeirydd, drwy benderfyniad gan Gyfarfod o Gyngor yr Undeb neu Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ohirio'r Cyfarfod hwnnw a'i ail-drefnu ar gyfer amser a lleoliad gwahanol, ond ni cheir trafod unrhyw fusnes yn y Cyfarfod a ohiriwyd ac eithrio'r busnes a fyddai wedi cael ei drafod yn y Cyfarfod gwreiddiol pe na fyddai wedi cael ei ohirio.

Cyn belled â bod; mewn achos lle mae Cyfarfod wedi cael ei ohirio am bythefnos neu fwy, rhaid rhoi rhybudd sydd o leiaf saith diwrnod clir gan nodi amser a lleoliad y Cyfarfod a ohiriwyd, ynghyd â natur cyffredinol y busnes sydd i'w drafod.

## Pleidleisiau mewn Cyfarfodydd

- 41 Dim ond Aelodau o'r Senedd sydd â'r hawl i bleidleisio mewn Cyfarfodydd o Senedd y Myfyrwyr.
- 42 Mae gan bob Aelod Cyffredin o UMPA yr hawl i bleidleisio mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd gan bob person sy'n pleidleisio mewn Cyfarfod un bleidlais.
- 43 Penderfynir ar bob cynnig neu syniad y pleidleisir arnynt mewn Cyfarfod o Gyngor yr Undeb neu Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol drwy fwyafrif syml o'r pleidleisiau a gaiff eu bwrw, oni fyddo'r Cyfansoddiad hwn neu unrhyw Atodlenni, Is-Ddeddfau neu Reoliadau'n nodi i'r gwrthwyneb.

## Pleidlais o'r Holl Fyfyrrwyr

- 44 Gellir galw Pleidlais o'r Holl Fyfyrrwyr ar unrhyw fater drwy:
  - 44.1 gynnig gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr; neu
  - 44.2 bleidlais fwyafrifol gan Bwyllgor Gwaith yr Undeb; neu
  - 44.3 bleidlais fwyafrifol yng Nghyngor yr Undeb neu mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol;
- 45 Unrhyw syniad a gyflwynir drwy NewidAber, yn ddibynnol ar Gymal 12.2 and 62, ni ellir ond pasio cynnig gan Bleidlais mewn Refferendwm o'r Holl Fyfyrrwyr pe bai 500 250 o Aelodau yn bwrw pleidlais yn y Bleidlais o'r Holl Fyfyrrwyr a bod mwyafrif o'r pleidleisiau o blaid y cynnig.
- 46 Cynhelir Pleidlais o'r Holl Fyfyrrwyr yn unol â'r Cyfansoddiad hwn ac Atodlen 1.4.
- 47 Yn ddibynnol ar Gymalau 13 a 71, gall yr Aelodau Cyffredin osod Polisi drwy Bleidlais o'r Holl Fyfyrrwyr. Gall Polisi a osodir gan Bleidlais o'r Holl Fyfyrrwyr wrthdroi Polisi a osodwyd gan Aelodau mewn Cyfarfod o Gyngor yr Undeb neu Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## Ymddiriedolwyr

### Penodi Ymddiriedolwyr

- 48 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cynnwys y personau canlynol:
  - 48.1 Dim mwy na 5 o Swyddogion Ymddiriedolwyr, wedi eu hethol yn unol â Chymal 49;
  - 48.2 Dim mwy na 2 o Fyfyrrwyr Ymddiriedolwyr, wedi eu hethol yn unol â Chymal 54;
  - 48.3 Dim mwy na 5 Ymddiriedolwr Allanol, wedi eu penodi yn unol â Chymal 58.

### Swyddogion Ymddiriedolwyr

- 49 Caiff hyd at 5 o Swyddogion Ymddiriedolwyr eu hethol drwy bleidlais gyfrinachol gan Aelodau UMPA mewn etholiad a gynhelir yn unol ag Is-Ddeddf 5. Etholir y Swyddogion Ymddiriedolwyr i swyddi a osodir allan yn Atodlen 2.2.

- 50 Bydd y Swyddogion Ymddiriedolwyr yn parhau yn eu swyddi am gyfnod o un flwyddyn gan ddechrau yn unol ag Atodlen 2.1. Gall y cyfnod yn y swydd fod yn fyrrach neu'n hwy ar sail drawsnewidiol i gydredeg â newid mewn dechrau neu ddiwedd blwyddyn. Gan ddibynnu ar newid trawsnewidiol yn y flwyddyn a dreulir yn y swydd, gellir ail-ethol Swyddogion Ymddiriedolwyr am gyfnod pellach, heb fod yn fwy na blwyddyn, gan Aelodau Cyffredin UMPA mewn etholiad a gynhelir yn unol ag Is-Ddeddf 5. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, gall cyfnodau mewn rôl Swyddog Ymddiriedolwr fod yn ddilynol neu beidio. Ni ellir, dan unrhyw amgylchiadau, ddehongli'r cymal hwn mewn ffordd sy'n galluogi Swyddog Ymddiriedolwr i fod yny rôl am fwy na chyfanswm o ddwy flynedd.
- 51 Rhaid i bob Swyddog Ymddiriedolwr fod yn Fyfyriwr neu'n Swyddog Ymddiriedolwr ar adeg eu hetholiad. Bydd Swyddog Ymddiriedolwr yn dod yn Aelod o UMPA pan fydd ef neu hi'n dechrau ar ei b/phenodiad neu (h)ail-benodiad fel Swyddog Ymddiriedolwr. Daw aelodaeth o'r fath i ben pan fydd y Swyddog Ymddiriedolwr yn peidio â bod yn Swyddog Ymddiriedolwr.
- 52 Ystyrir y Swyddogion Ymddiriedolwyr i fod yn "ddalwyr un o brif swyddi'r undeb" at ddibenion Adran 22 y Ddeddf Addysg.
- 53 Yr un pryd â dechrau tymor swydd fel Ymddiriedolwr, bydd y Swyddog Ymddiriedolwr yn cychwyn cytundeb cyflogaeth ag UMPA am gyfnod i'w benderfynu gan y Cyfansoddiad hwn. Dyletswyddau pob Swyddog Ymddiriedolwr fydd y rheiny a osodir yn Atodlen 2.2 a gosodir dull o dalu yn Atodlen 2.

## Myfyrwyr Ymddiriedolwyr

- 54 Yn amodol ar Gymal 57, caiff hyd at 2 o Fyfywrwyr Ymddiriedolwyr eu hethol drwy bleidlais gyfrinachol gan yr Aelodau mewn etholiad a gynhelir yn unol ag Is-Ddeddf 5. Dylid bod un myfyriwr is-raddedig ac un myfyriwr ôl-raddedig.
- 55 Rhaid i bob Myfyriwr Ymddiriedolwr fod yn Fyfyriwr yn ystod eu hetholiad (a byddant yn parhau i fod yn Fyfyriwr am eu cyfnod fel Myfyriwr Ymddiriedolwr).
- 56 Bydd y Myfyrwyr Ymddiriedolwyr yn parhau yn eu swyddi am gyfnod o ddwy flynedd gan ddechrau yn unol ag Atodlen 2. Gall y cyfnod yn y swydd fod yn fyrrach neu'n hwy ar sail drawsnewidiol i gydredeg â'r newid mewn dechrau neu ddiwedd blwyddyn.
- 57 Gall Myfyriwr Ymddiriedolwr wasanaethu am ddau dymor yn olynol ar y mwyaf.

## Ymddiriedolwyr Allanol

- 58 Caiff hyd at 5 Ymddiriedolwr Allanol eu penodi gan bleidlais fwyafrif syml gan y Pwyllgor Penodiadau a Rheoli. Ond ni ddaw penodiad o'r fath i rym oni ddilysir gan bleidlais fwyafrif syml gan Gyfarfod Cyngor yr Undeb neu Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.



- 59 Oni chaiff eu penodiad ei derfynu yn unol â Chymalau 60 i 69, bydd Ymddiriedolwyr Allanol yn aros yn eu swydd am gyfnod o hyd at bedair blynedd yn dechrau yn unol ag Atodlen 2.1.
- 60 Gall Ymddiriedolwyr Allanol wasanaethu am uchafswm o ddau gyfnod a all fod yn olynol neu beidio.

## Diarddel, Ymddiswyddiad a Diswyddiad Ymddiriedolwyr

- 61 Byddai Ymddiriedolwyr yn rhoi'r gorau i'w swydd os:
- 61.1 Cânt eu gwahardd gan y gyfraith o fod yn ymddiriedolwr elusen;
  - 61.2 Yn achos Swyddog Ymddiriedolwr, maent yn rhoi'r gorau i fod yn weithiwr UMPA;
  - 61.3 Yn achos Myfyriwr Ymddiriedolwr, maent yn rhoi'r gorau i fod yn fyfyrwr;
  - 61.4 Maent yn ymddiswyddo gyda rhybudd at UMPA (ond dim ond os bydd o leiaf [pedwar] Ymddiriedolwr yn aros yn eu swyddi pan ddaw rhybudd yr ymddiswyddiad i rym);
  - 61.5 Creda'r Ymddiriedolwyr yn rhesymol eu bod nhw'n dioddef o anhwylder meddwl neu gorfforol a phenderfynant gael eu diswyddo.
  - 61.6 Maent yn methu â mynychu tri chyfarfod yr Ymddiriedolwyr yn olynol, ac yn nhyb yr Ymddiriedolwyr, nid oes amgylchiadau lliniarus am y methiant hwnnw ac felly penderfynant ddiswyddo ef neu hi am y rheswm hynny;
  - 61.7 Cânt eu diswyddo dan Gymalau 62 neu 63; neu
  - 61.8 Yn yr achos o Ymddiriedolwyr Allanol, cânt eu harddal yn sgil pleidlais o ddiffyg hyder gan yr Ymddiriedolwyr.

## Diswyddo Ymddiriedolwyr gan yr Aelodaeth

- 62 Byddai Ymddiriedolwyr yn rhoi gorau i'w swydd os caiff cynnig o ddiffyg hyder ei basio gan fwyafrif o'r Aelodaeth Gyffredin sy'n pleidleisio mewn Pleidlais o'r Holl Fyfyryr, cyn belled bodo leiaf 500 o Aelodau Cyffredin yn bwrw pleidlais yn y Bleidlais o'r Holl Fyfyryr. Gellir ond sbarduno cynnig o'r fath gan Ddeiseb Ddiogel o ddiffyg hyder a arwyddwyd gan o leiaf 250 o Aelodau Cyffredin a'i gyflwyno i Gadeirydd yr Undeb.

## Diswyddo Ymddiriedolwyr gan y Bwrdd

- 63 Yn yr achos o ddiarddel unrhyw Ymddiriedolwr gan y Bwrdd o dan Gymal 61, ni fydd yr Ymddiriedolwr dan sylw nag unrhyw Ymddiriedolwr sydd â buddiannau croes i'r mater yn pleidleisio ar y cynnig hwna chaiff y cworwm ei addasu felly yn unol â Chymal 89.

## Hawliau'r Ymddiriedolwr wedi ei Ddiswyddo

- 64 Ni chaiff cynnig o'r fath ei basio oni fydd yr Aelod Cyffredin wedi derbyn o leiaf 14 diwrnod clir o rybudd fod y cynnig i gael ei gyflwyno, gan esbonio'n fanwl yr amgylchiadau honedig sy'n

cyfiawnhau'r gwaharddiad, a bod yr unigolyn wedi cael cyfle rhesymol i gael gwrandawriad neu o wneud cyflwyniad ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr.

- 65 Bydd hawl gan Ymddiriedolwr wedi'i ddiswyddo yn unol â Chymal 62 i apelio'r penderfyniad i'w ddiswyddo i Banel Apeliadau o fewn 14 diwrnod wedi'r cynnig. Caiff y Panel Apeliadau ei greu o enwebai o Brifysgol Aberystwyth, un person annibynnol a phrif weithredwr/rheolwr cyffredinol a swyddog o undeb myfyrwyr arall. Bydd y person annibynnol yn Aelod nad yw'n Ymddiriedolwr neu aelod o Bwyllgor Gwaith yr Undeb. Gosodir y drefn ar gyfer dewis aelodau'r Panel Apeliadau a'i weithdrefnau yn Is-Ddeddf 4. Gall UMPA ymgynghori ag UCM o ran y broses apelio ac yn enwedig penodiad y personau annibynnol i'r Panel Apeliadau.

## Penodi Ymddiriedolwyr Newydd

- 66 Os bydd Swyddog Ymddiriedolwr yn ymddiswyddo neu os caiff ei ddiarddel neu ei ddiswyddo unrhyw bryd cyn dechrau'r Flwyddyn Academaidd, caiff y swydd wag ar fwrdd yr Ymddiriedolwyr a ddaw o ganlyniad ei llenwi yn unol ag Is-Ddeddf 5.
- 67 Os bydd Swyddog Ymddiriedolwr yn ymddiswyddo neu os caiff ei ddiarddel neu ei ddiswyddo wedi dechrau'r Flwyddyn Academaidd, bydd y swydd yn aros yn wag tan yr etholiadau nesaf.
- 68 Os bydd Myfyriwr Ymddiriedolwr yn ymddiswyddo neu os caiff ei ddiarddel neu ei ddiswyddo, gellid ethol Myfyriwr Ymddiriedolwr i'r swydd wag yn unol â Chymal 54.
- 69 Os bydd Ymddiriedolwr Allanol yn ymddiswyddo neu os caiff ei ddiarddel neu ei ddiswyddo, caiff Ymddiriedolwr Allanol ei ethol i'r swydd wag yn unol â Chymal 58.

## Pwerau'r Ymddiriedolwyr

- 70 Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am reoli a gweinyddu UMPA a (yn amodol ar y Ddeddf Addysg, y cyfansoddiad hwn, yr Is-ddeddfau a'r Rheoliadau) gall arfer holl bwerau UMPA. Gall cyfarfod yr Ymddiriedolwyr, lle bo'r cwmnï yn bresennol, arfer holl bwerau y gellir eu harfer gan yr Ymddiriedolwyr.
- 71 Ni fydd unrhyw newid i'r Cyfansoddiad hwn, yr Atodlenni, Is-ddeddfau neu'r Rheoliadau yn annilysu unrhyw weithred flaenorol yr Ymddiriedolwyr a fyddai wedi bod yn ddilys os na wnaed y newid hynny.
- 72 Bydd pŵer y Bwrdd dan Gymal 70 yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gyfrifoldeb dros:
- 72.1 Lywodraethu UMPA;
  - 72.2 Cyllideb UMPA; a
  - 72.3 Strategaeth UMPA;
- 73 Gall Bwrdd yr Ymddiriedolwyr drechu unrhyw benderfyniad a Pholisi a wnaed gan yr Aelodau Cyffredin mewn Cyfarfod Cyngor yr Undeb, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu Bleidlais o'r Holl Fyfirwyr lle bo'r Ymddiriedolwyr yn ystyried (yn ôl eu disgrisiwn llwyr):

- 73.1 fod iddo, neu y gall fod iddo, oblygiadau ariannol i UMPA;
- 73.2 ei fod, neu y gall fod, yn groes i neu'n anghyson â chyfraith elusennol neu addysg neu o unrhyw ofyniad cyfreithiol eraill (gan gynnwys ultra vires);
- 73.3 nad yw, neu mae'n bosib nad yw, yn gyson â buddiannau rhai o'i amcanion elusennol neu'n cwbl ohonynt; neu
- 73.4 bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd arall ar gyflawni unrhyw gyfrifoldeb y cyfeirir atynt yng Nghymal 72.
- 74 Gall yr Ymddiriedolwyr, neu'r un Ymddiriedolwr, sy'n weddill weithredu er gwaethaf unrhyw rôl wag ar y Pwyllgor. Serch hynny, cyn belled â bod y nifer o Ymddiriedolwyr yn llai na'r nifer a osodwyd fel y cworwm yng Nghymal 89, ni all yr Ymddiriedolwyr ond gweithredu i gynyddu'r nifer o Ymddiriedolwyr (gan gynnwys drwy drefnu etholiad) fel bod cworwm.
- 75 Bydd pob gweithred a wneir gan Ymddiriedolwyr, neu bwyllgor o'r Ymddiriedolwyr, yn ddilys, hyd yn oed os canfyddir yn ddiweddarach fod unrhyw Ymddiriedolwr a gyfranogodd yn y bleidlais:
- 75.1 Heb ei benodi'n gywir;
- 75.2 Wedi ei wahardd rhag dal y swydd;
- 75.3 Wedi ymddiswyddo; neu
- 75.4 Yn anghymwys i bleidleisio.

## Dirprwyo Pwerau Ymddiriedolwyr

- 76 Gall yr Ymddiriedolwyr, drwy bŵer twrnai neu fel arall, benodi unrhyw berson i fod yn asiant o UMPA at ba ddibenion ac ar ba amodau y penderfynant.
- 77 Gall yr Ymddiriedolwyr ddirprwyo unrhyw bŵer neu swyddogaeth sydd ganddynt i unrhyw bwyllgor neu weithrediad unrhyw gynigion a rheolaeth o ddydd-i-dydd o fusnes UMPA i unrhyw berson neu bwyllgor yn unol â'r amodau a osodir yn y Cyfansoddiad hwn.

## Dirprwyo i Bwyllgorau

- 78 Yn achos o ddirprwyo i bwyllgorau:
- 78.1 Bydd y cynnig sy'n gwneud y ddirprwyaeth honno'n nodi'n union pwy gaiff wasanaethau, neu a gaiff eu gwahodd i wasanaethu, ar bwyllgor o'r fath (er y gall y cynnig ganiatáu i'r pwyllgor gyfethol hyd at nifer penodol);
- 78.2 Bydd aelodaeth pwyllgor o'r fath yn gyfangwbl ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr a gall gynnwys cynifer ohonynt (os o gwbl) ag y cyfeirir ato'n benodol yn y cynnig;
- 78.3 Caiff yr hyn a drafodir gan bwyllgorau o'r fath ei adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Ymddiriedolwyr, a chaiff unrhyw gynnig a basir neu benderfyniad a wneir gan bwyllgor o'r

- fath ei adrodd yn ôl ar unwaith i'r Ymddiriedolwyr, ac i'r diben hwnnw bydd pob pwyllgor yn penodi ysgrifennydd;
- 78.4 Gellir diddymu pob dirprwyad dan y Cymal hwn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr unrhyw bryd; a
- 78.5 Gall yr Ymddiriedolwyr wneud rheoliadau o'r fath a gorfodi'r fath delerau ac amodau a gosod y fath fandadau i unrhyw bwyllgor neu bwyllgorau o'r fath ag y gwelant yn dda o bryd i'w gilydd.
- 79 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sefydlu'r pwyllgorau canlynol fel y nodir yn Atodlen 1.3 (sy'n rhestr nad yw'r holl-gynhwysfawr) yn unol â'u pwerau dan Gymalau 73 ac 74:

## Dirprwyo pwerau rheolaeth o ddydd-i-ddydd i'r Prif Weithredwr

- 80 Mewn achos lle dirprwyir rheolaeth o dydd-i-ddydd o UMPA i'r Prif Weithredwr:
- 80.1 Y pŵer a ddirprwyir fydd i reoli UMPA drwy weithredu'r polisi a'r strategaeth a fabwysiadwyd gan ac o fewn cyllideb a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr, ac os yw'n berthnasol cyngori'r Ymddiriedolwyr parthed polisi, strategaeth a chyllideb o'r fath.
- 80.2 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn darparu'r Prif Weithredwr â disgrifiad o'i rôl a maint ei (h)awdurdod.
- 80.3 Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Ymddiriedolwyr ar y gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy wrth reoli UMPA a'u darparu â chyfrifon rheolaeth sy'n ddigonol i esbonio sefyllfa ariannol UMPA; a
- 80.4 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad y Prif Weithredwr mewn lle i gynorthwyo eu cynllun gwaith a'u datblygiad gydag arwyddion perfformiad yn cael eu hadrodd yn ôl i'r bwrdd o bryd i'w gilydd.

## Gweithrediadau Pwyllgorau

- 81 Caiff cyfarfodydd a gweithrediadau unrhyw bwyllgor eu llywodraethu gan ddarpariaethu'r Cyfansoddiad hwn sy'n rheolaethu cyfarfodydd a gweithrediadau'r Ymddiriedolwyr, cyn belled â bod y rhain yn berthnasol ac nad ydynt wedi eu disodli gan unrhyw Atodlenni nac Is-Ddeddfau a wnaed gan yr Ymddiriedolwyr, Cyngor yr Undeb, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu Bleidlais o'r Holl Fyfirwyr.

## Gweithrediadau Ymddiriedolwyr

- 82 Yn ddibynnol ar ddarpariaethau'r Cyfansoddiad hwn, Atodlenni, Is-Ddeddfau a Rheoliadau, caiff yr Ymddiriedolwyr reolaethu eu gweithrediadau fel y gwelant yn dda.

## Cyfarfodydd Ymddiriedolwyr

- 83 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cynnal o leiaf pedwar cyfarfod mewn unrhyw Flwyddyn Academaidd.
- 84 Caiff dau Ymddiriedolwr, a'r Prif Weithredwr ar gais dau Ymddiriedolwr, alw cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr.
- 85 Caiff gwesteion neu sylwedyddion fynychu cyfarfodydd o'r Ymddiriedolwyr ar ddisgresiwn y Cadeirydd.

## Hyd y Rhybudd

- 86 Caiff cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr ei alw drwy roi o leiaf saith diwrnod clir o rybudd:
- 86.1 Oni fyddo'r Ymddiriedolwyr i gyd yn cytuno i lai o rybudd; neu
- 86.2 Fod amgylchiadau brys yn golygu fod angen cyfarfod ynghynt.

## Cynnwys y Rhybudd

- 87 Bydd pob rhybudd sy'n galw Cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr yn cynnwys lleoliad, dyddiad ac amser y Cyfarfod a natur cyffredinol y busnes sydd i'w drafod mewn cyfarfod o'r fath.

## Cyflwyno'r Rhybudd

- 88 Caiff rhybudd o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr ei anfon i bob Ymddiriedolwr drwy'r post neu ar ffurf cyfathrebiad electronig.

## Cworwm

- 89 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Ymddiriedolwyr fydd chwech, a rhaid i gworwm o'r fath gynnwys o leiaf tri o Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion. Lle bo'r cynnig neu'r mater sydd dan drafodaeth yn cynnwys rhywbeth a allai beri gwrthdaro o ran buddiannau i rai o'r Ymddiriedolwyr, neu'n cwbl ohonynt, y cworwm fydd pedwar.

## Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd

- 90 Y Llywydd fydd Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr.

- 91 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn penodi Ymddiriedolwr i fod yn Ddirprwy Gadeirydd o'r Ymddiriedolwyr a gallant eu diswyddo unrhyw bryd. Rôl y Dirprwy Gadeirydd fydd cynnig cymorth i'r Cadeirydd.
- 92 Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, bydd Ymddiriedolwr arall wedi ei b/phenodi gan yr Ymddiriedolwyr sy'n bresennol yn cadeirio'r cyfarfod.

## Gwneud Penderfyniadau gan Ymddiriedolwyr mewn Cyfarfodydd

- 93 Caiff cwestiynau sy'n codi mewn cyfarfod eu penderfynu gan bleidlais fwyafrifol. Yn achos pleidlais gyfartal, bydd gan y Cadeirydd yr hawl i frwr pleidlais ychwanegol i droi'r fantol, yn ychwanegol i unrhyw bleidlais arall y bydd ganddo/i.

## Cyfarfodydd haniaethol

- 94 Gellir cynal cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr dros y ffôn neu drwy fodd clyweledol, electronig neu haniaethol arall y cytunwyd arno drwy gynnig ger bron yr Ymddiriedolwyr, lle gall pawb sy'n cymryd rhan gyfathrebu ar yr un pryd â'r holl gyfranogwyr eraill.

## Penderfyniadau Mwyafrifol heb Gyfarfod o'r Llywodraethwyr

- 95 Gall yr Ymddiriedolwyr, dan yr amgylchiadau a amlinellir yn y Cymal hwn, wneud penderfyniad â mwyafrif syml heb gynnal cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr.

### 95.1 Os:

- 95.1.1 yw Ymddiriedolwr yn dod yn ymwybodol o fater lle mae angen i'r Ymddiriedolwyr wneud penderfyniad arno

### 95.1.2

- 95.1.3 yw'r Ymddiriedolwr hwnnw wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr eraill i gyd yn ymwybodol o'r mater a'r penderfyniad;

- 95.1.4 yw'r Ymddiriedolwyr wedi cael cyfle rhesymol i fynegi eu barn ar y mater a'r penderfyniad ymysg ei gilydd; a

- 95.1.5 bod mwyafrif syml o'r Ymddiriedolwyr yn pleidleisio o blaid penderfyniad penodol ar y mater hwnnw.

Bydd penderfyniad gan yr Ymddiriedolwyr ar sail pleidlais fwyafrifol a bydd mor ddilys ac effeithiol â phe bai wedi ei chynnal mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd yn y dull arferol.

- 95.2 Gall Ymddiriedolwyr sy'n cymryd rhan mewn penderfyniad mwyafrifol a gynhelir tu allan i gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr yn unol â'r Cymal hwn;

- 95.2.1 fod mewn gwahanol leoliadau a gallant gyfranogi ar wahanol amseroedd; a

- 95.2.2 gallant gyfathrebu â'i gilydd drwy d dulliau eraill.

- 95.3 Ni chaiff unrhyw benderfyniad ei wneud gan yr Ymddiriedolwyr yn unol â'r Cymal hwn oni fyddo cworwm yn cyfranogi yn y broses o lunio penderfyniad. Bydd y cworwm ar gyfer llunio penderfyniad gan yr Ymddiriedolwyr yn unol â'r Cymal hwn yr un fath â'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Ymddiriedolwyr fel y gosodir yng Nghymal 89.
- 95.4 Y Cadeirydd, neu Ymddiriedolwr arall a benodir gan yr Ymddiriedolwyr, fydd y cadeirydd ar gyfer y broses o lunio penderfyniad yn unol â'r Cymal hwn. Bydd y broses yn cynnwys:
- 95.4.1 Cylchrediad o'r penderfyniad arfaethedig gyda manylion y cyfnod a ganiateir ar gyfer trafodaeth a'r dyddiad y bydd disgwyl i'r Ymddiriedolwyr fwrw eu pleidleisiau;
- 95.4.2 Enwebiad o'r person mae angen i'r Ymddiriedolwyr i gyd anfon eu pleidleisiau ato/i.
- 95.4.3 Os yw mwyafrif o'r Ymddiriedolwyr yn pleidleisio dros y penderfyniad, bydd y person a enwebwyd yn cyfathrebu'r penderfyniad i'r holl Ymddiriedolwyr, adyddiad y penderfyniad fydd y dyddiad y bwriwyd y bleidlais sy'n dod â'r nifer o Ymddiriedolwyr sy'n pleidleisio dros y penderfyniad i'r mwyafrif; a
- 95.4.4 Rhaid i'r person a enwebir baratoi cofnod o'r penderfyniad yn unol â Chymal 99.
- 95.5 Mewn achos lle bo'r bleidlais yn gyfartal mewn unrhyw broses llunio penderfyniadau yn unol â'r Cymal hwn, bydd gan y Cadeirydd hawl i bleidlais sy'n troi'r fantol, yn ychwanegoli unrhyw bleidlais arall a all fod ganddo/i, ond nid yw hyn yn berthnasol os, yn unol â Chymal 101, na chaiff y Cadeirydd neu'r Ymddiriedolwr penodol eu cyfrif fel bod yn cymryd rhan yn y broses llunio penderfyniad at ddibenion cworwm, pleidleisio a chyrraedd cytundeb.

## Gwrthgyferbyniad Buddiannau

- 96 Pan fo mater sydd i'w drafod mewn cyfarfod lle penderfynir, yn unol â Chymal 95, fod gan Ymddiriedolwr fuddiannau personol parthed y mater hwnnw, yna rhaid iddynt:
- 96.1 Ddatgan y buddiannau hynny i'r Ymddiriedolwyr;
- 96.2 Aros yn y cyfarfod er mwyn, ym marn yr Ymddiriedolwyr eraill, darparu gwybodaeth gefndir ar gyfer y drafodaeth;
- 96.3 Peidio â chael eu cyfrif yn y cworwm ar gyfer y rhan hwnnw o'r cyfarfod [na'r broses llunio penderfyniad]; a
- 96.4 gadael y cyfarfod yn ystod y bleidlais a pheidio â bod â phleidlais ar y mater.
- 97 Os oes unrhyw gwestiynau'n codi ynglŷn ag os oes gan Ymddiriedolwr Fuddiannau personol, caiff y cwestiwn ei benderfynu drwy bleidlais fwyafrifol o'r Ymddiriedolwyr eraill.
- 98 Yn arbennig, bydd Cymal 96 yn berthnasol i unrhyw fater a all berthyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i rôl Swyddog Ymddiriedolwr neu sydd i'w dalu fel aelod staff UMPA.

## Cofnodion

- 99 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cadw cofnodion o:
- 99.1 Holl weithrediadau yng Nghyfarfodydd Cyngor yr Undeb a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol o UMPA ac o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr, a phwyllgorau'r Ymddiriedolwyr, gan gynnwys enwau'r Ymddiriedolwyr sy'n bresennol ym mhob cyfarfod o'r fath; a
  - 99.2 phob cynnig gan yr Aelodau Cyffredin a'r Ymddiriedolwyr
- 100 a bydd pob cofnod o'r fath, os yr honnir iddo gael ei arwyddo gan gadeirydd y cyfarfod lle cynhaliwyd y gweithrediadau, neu gan gadeirydd y cyfarfod nesaf, yn dystiolaeth ddigonol o'r gweithrediadau neu o'r cynnig, yn erbyn unrhyw Aelod Cyffredin neu Ymddiriedolwr o UMPA.
- 101 Ystyrir cofnodion y cyfarfodydd y cyfeirir atynt yng Nghymal 100 uchod fel arfer i fod yn agored a byddant ar gael i Aelodau ar wefan UMPA, ac eithrio lle bo'r cofnodion hynny'n ymwneud â materion wedi eu neilltuo neu faterion cyfrinachol, gan gynnwys heb gyfyngiadau faterion sy'n perthyn i staff neu faterion ynglŷn â disgyblaeth. Caiff copïau o'r cofnodion hefyd eu cadw yn swyddfeydd UMPA.

## Cyfrifon ac Adroddiadau

- 102 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn wastad cydymffurfio darpariaethau Deddf Addysg 1994 a Deddf Elusennau 2011 parthed cyllidebau, cyfrifon ac adroddiadau.
- 103 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer cymeradwyo cyllideb UMPA, a monitro ei gwariant, gan Senedd a Chyngor y Brifysgol.
- 104 Mae gan Aelodau UMPA'r hawl i holi cwestiynau ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr ynglŷn â chynnwys unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yng Nghymal 102.

## Ymaelodaeth â Mudiadau Allanol

- 105 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Addysg o ran ymaelodaeth UMPA â mudiadau allanol.
- 106 Dylid cyflwyno cynnig ar gyfer ymaelodaeth newydd â mudiad allanol drwy Gyngor yr Undeb neu Gyfarfod cyffredinol Blynyddol, gan nodi enw'r mudiad a chost ymaelodaeth. Lle caiff ymaelodaeth o'r fath ei gymeradwyo, bydd UMPA yn gwneud cyhoeddiad sy'n cynnwys:
- 106.1 enw'r mudiad, a
  - 106.2 manylion unrhyw danysgrifiad neu ffi gyffelyb a dalwyd neu y bwriedir ei thalu, ac o unrhyw gyfraniad a wnaed neu y bwriedir ei wneud, i'r mudiad;
- A bydd pob hysbysiad o'r fath ar gael i Ysgrifennydd y Brifysgol ac i bob myfyriwr.



107 Lle bo UMPA wedi ymaelodi â mudiad allanol, cyhoeddir adroddiad yn neu cyn cyfarfod cyntaf Gynulliad y Myfyrwyr ym mhob blwyddyn academiaidd, yn cynnwys:

107.1 Rhestr o'r mudiadau allanol mae'r undeb ar hyn o bryd wedi ymaelodi â nhw, a

107.2 manylion unrhyw danysgrifiad neu ffi gyffelyb a dalwyd, neu gyfraniadau a wnaed at fudiadau o'r fath yn ystod y flwyddyn a aeth heibio (neu ers yr adroddiad diwethaf);

A bydd pob hysbysiad o'r fath ar gael i Ysgrifennydd y Brifysgol ac i bob myfyriwr.

108 Yn flynyddol, yn ystod y tymor academiaidd cyntaf, bydd UMPA yn adolygu ei ymaelodaethau i fudiadau allanol ac yn gofyn am gymeradwyaeth Aelodau Cyffredin er mwyn parhau â'r ymaelodaeth. Gellir gofyn am gymeradwyaeth gan Gyngor yr Undeb neu mewn Pleidlais o'r Holl Fyfirwyr.

## Rhybuddion

109 Yn ddibynol ar Gymal 110, bydd unrhyw rybudd a roddir i neu gan unrhyw berson parthed y Cyfansoddiad hwn mewn ysgrifen, ac eithrio rhybudd sy'n galw cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr - nid oes angen i hwn fod yn ysgrifenedig.

110 Gall UMPA roi unrhyw rybudd i Aelod Cyffredin:

110.1 naill ai'n bersonol

110.2 drwy ei adael yng ngyfeiriad yr Aelod;

110.3 drwy gyfathrebiad electronig i gyfeiriad yr Aelod; neu

110.4 drwy ei gyhoeddi ar wefan UMPA.

111 Ystyrir bod unrhyw Aelod sy'n bresennol mewn cyfarfod o UMPA wedi derbyn rhybudd o'r cyfarfod a, lle bo hynny'n berthnasol, diben y cyfarfod.

## Pwyllgor Gwaith yr Undeb

112 Oni fyddo'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu'r gwrthwyneb, bydd Pwyllgor Gwaith yr Undeb yn cynnwys:

112.1 Y Swyddogion Ymddiriedolwyr; a'r

112.2 Swyddogion Rhan-Amser

Ni fydd cyfrifoldeb Pwyllgor Gwaith yr Undeb yn cynnwys dyletswyddau'r Ymddiriedolwyr fel y gosodir yng Nghymal 76 ond byddant yn cynnwys cynrychiolaeth, gwaith ymgyrchu a gweithredu Polisi cyn belled nad yw'r cyfrifoldebau hyn wedi cael eu dirprwyo i bwyllgor arall.

113 Gall y Prif Weithredwr ac uwch dîm rheoli UMPA fynychu cyfarfodydd o Bwyllgor Gwaith yr Undeb ar gais Pwyllgor Gwaith yr Undeb.

## Indemniad

114 Heb ymrwymiad at unrhyw indemniad y gall Ymddiriedolwr fel arall fod yn gymwys iddo, gall pob Ymddiriedolwr a phob swyddog neu archwiliwr arall o UMPA gael indemniad allan o asedau UMPA yn erbyn unrhyw ddyled neu gyfrifoldeb a ddaw i'w rhan yn sgil amddiffyn unrhyw achos llys, boed sifil neu droseddol, lle rhoddir dyfarniad o'u plaid neu lle cânt eu dyfarnu'n ddiuog, neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw gais lle penderfyna'r llys eu rhyddhau rhag unrhyw gyfrifoldeb am esgeulustod, diffyg, tor-dyletswydd neu dor-ymddiriedaeth parthed busnes a gweithrediadau UMPA, ac yn erbyn pob costau, treuliau, colledion, gwariant neu ddyledion a ddaeth i'w rhan yn sgil gweithredu eu dyletswyddau neu'n ymwneud â hwy.

### Yswiriant Indemniad Ymddiriedolwyr

115 Bydd gan yr Ymddiriedolwyr y pŵer i ddatrys parthed Cymal 4.29 er mwyn gweithredu Yswiriant indemniad Ymddiriedolwyr, er gwaethaf eu buddiannau mewn polisi o'r fath.

## Diffiniadau a Dehongliadau

116 Yn y Cyfansoddiad hwn, bydd i'r termau canlynol yr ystyrion canlynol:

116.1 "Prifysgol Aberystwyth".

*Prifysgol Aberystwyth, a ymgorfforwyd drwy Siarter Frenhinol, diweddarwyd yn 2007*

116.2 "Blwyddyn Academaidd"

*Y cyfnod rhwng 1af Awst mewn un flwyddyn hyd 31ain Gorffennaf yn y flwyddyn ganlynol, sef y cyfnod a benderfynir gan UMPA pryd mae gofyn i fyfyrwyr fod wedi cofrestru gyda Prifysgol Aberystwyth. Rhennir pob Blwyddyn Academaidd ar hyn o bryd yn ddau semester;*

116.3 "Pleidlais o'r Holl Fyfirwyr"

*Balot lle mae gan holl Aelodau UMPA'r hawl i fwrw pleidlais - gosodir y protocol ar gyfer hyn yn Atodlen 1.4;*

116.4 "UMPA"

*Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth;*

116.5 "Pwyllgor Penodiadau"

*Y Pwyllgor a sefydlwyd yn unol ag Atodlen 1.4 a fydd yn cynnwys y Llywydd, un Swyddog Ymddiriedolwr arall, un Myfyriwr Ymddiriedolwr, y Prif Weithredwr, a pherson a enwebir gan Brifysgol Aberystwyth;*

116.6 "Cyfarfod o Gyngor y Cynulliad"

*Cyfarfod o Gyngor Cynulliad yr Undeb;*

116.7 "Bwrdd yr Ymddiriedolwyr" neu'r "Bwrdd"

*Bwrdd Ymddiriedolwyr UMPA;*

116.8 "Is-Ddeddfau"

*Yr is-ddeddfau sy'n gosod arferion gweithredu UMPA a wneir o bryd i'w gilydd yn unol â Chymal 14;*

116.9 "Cadeirydd"

*Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, a fydd yn Llywydd UMPA yn unol â Chymal 98;*

116.10 "Prif Weithredwr"

*Prif Weithredwr UMPA, a benodir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr;*

116.11 "diwrnodau clir"

*Parthed cyfnod rhybudd, y cyfnod ac eithrio'r diwrnod lle rhoddir y rhybudd neu yr ystyrir iddo fod wedi ei roi a'r diwrnod mae'n cyfeirio ato, neu y daw i rym;*

116.12 "Rheolau Gweithredu"

*Y rheolau gweithredu sy'n perthyn i oblygiadau Prifysgol Aberystwyth dan Adran 22 o'r Ddeddf Addysg;*

116.13 "Person Cysylltiedig"

*Unrhyw berson sy'n perthyn i un o'r categorïau canlynol a lle gallai taliadau i'r person hwnnw arwain at yr Ymddiriedolwr yn cael budd o'r taliad:*

*(a) Gwr/gwraig, cymar sifil, rhiant, plentyn, brawd, chwaer, tad-cu/mam-gu, Wŷr/wyres i Ymddiriedolwr; neu*

*(b) Gwr/gwraig neu gymar sifil unrhyw berson yn (a); neu*

*(c) Unrhyw berson arall sydd mewn perthynas ag Ymddiriedolwr y gellir ei ystyried yn rhesymol i fod yn gyfystyr â pherthynas o'r fath; neu*

*(d) Unrhyw gwmni neu Bartneriaeth Cyfrifoldeb Cyfyngedig lle mae'r Ymddiriedolwr yn gyfarwyddwr, aelod, partner neu aelod staff cyflogedig, neu'r rhanddeilydd mwy na 1% o'r cyfalaf;*

116.14 "Cyfansoddiad"

*Y cyfansoddiad hwn o UMPA;*

116.15 "Dirprwy Gadeirydd"

*Dirprwy Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, a benodir yn unol â Chymal 89;*

116.16 "Deddf Addysg"

*Deddf Addysg 1994;*

116.17 "cyfnod arholiadau"

*Unrhyw ddiwrnod o fewn i'r dyddiadau a gyhoeddir gan Brifysgol Aberystwyth fel cyfnod arholiadau;*

116.18 "Ymddiriedolwr Allanol"

*Ymddiriedolwr a benodir yn unol â Chymal 59, na ystyrir er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth i fod yn ddeilydd un o brif swyddi'r Undeb nac yn ddeilydd swydd sabothol at ddibenion adran 22 o'r Ddeddf Addysg;*

116.19 "Pwyllgor Gwaith yr Undeb"

*Golyga hyn yr Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion a'r Swyddogion Rhan-Amser;*

116.20 "mewn ysgriflen"

*Golyga hyn ysgrifenedig, wedi ei argraffu neu ysgriflen a drosglwyddir gan gynnwys cyfathrebu electronig;*

116.21 "Aelod" Rhoddir yr ystyr yng Nghymal 15;

116.22 "UCM" Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr.

116.23 "Swyddfa" Pencadlys UMPA;

116.24 "Swyddog Ymddiriedolwr" Ymddiriedolwr a etholir yn unol â Chymal 43;

116.25 "Swyddogion Rhan-Amser"

*Yr Aelodau a etholir i fod yn swyddogion UMPA wrth barhau â'u hastudiaethau ym Mrifysgol Aberystwyth;*

116.26 "Buddiannau Personol"

*Buddiannau ariannol neu fuddiannau nad ydynt yn codi yng nghwrs naturiol bod yn Aelod neu'n Ymddiriedolwr (er enghraifft, bod yn aelod o glwb neu gymdeithas);*

116.27 "Polisi"

*Polisi cynrychiolaeth ac ymgyrchu a osodir gan refferenda, Cyfarfod o'r Cynulliad neu Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol, yn unol â Chymalau 23 hyd 26 a Chymal 29;*

116.28 "Llywydd"

*Llywydd UMPA a etholir gan yr Aelodaeth yn unol ag Is-Ddeddf 9;*

116.29 "RAG"

*Cymdeithas codi arian a rhoi i achosion teilwng, sy'n datblygu Myfyrwyr drwy roi cyfle iddynt godi arian at achosion elusennol;*

116.30 "Atodlen"

*Yr atodlenni sy'n gosod arferion gweithredu UMPA a wneir o bryd i'w gilydd yn unol â Chymal 14;*

116.31 "Deiseb Ddiogel"

*Cais ysgrifenedig i UMPA a gaiff ei osod mewn man neu fannau a drefnir ymlaen llaw neu a osodir yn ddiogel ar-lein;*

116.32 "Myfyriwr"

*Unrhyw unigolyn sydd wedi cofrestru'n ffurfiol ar gyfer rhaglen astudiaeth a gymeradwyir ac a ddarperir gan Brifysgol Aberystwyth. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, caiff Prifysgol Aberystwyth benderfynu os oes gan unigolyn statws myfyriwr neu beidio;*

116.33 "Myfyriwr Ymddiriedolwr"

*Ymddiriedolwr a etholir yn unol â Chymal 48 sy'n Fyfyriwr ac er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd, at ddibenion Adran 22 o'r Ddeddf Addysg, yn ddeilydd un o brif swyddi'r Undeb;*

116.34 "Is-Gwmni"

*Unrhyw gwmni lle mae UMPA'n dal mwy na 50% o'r cyfranddaliadau, yn rheoli mwy na 50% o'r hawliau pleidleisio sydd ynghlwm yn y cyfranddaliadau hynny, neu sydd â'r hawl i benodi mwyafrif o fwrdd y cwmni;*

116.35 "Ymddiriedolwr" ac "Ymddiriedolwyr"

*Y Swyddogion sy'n Ymddiriedolwyr, Myfyrwyr sy'n Ymddiriedolwyr a'r Ymddiriedolwyr Allanol;*

116.36 "Cyfnod gwyliau"

*Unrhyw ddiwrnod sydd tu allan i'r dyddiadau a gyhoeddir gan Brifysgol Aberystwyth fel Tymor yr Hydref, Tymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf*

117 Ystyrir bod unrhyw gyfeiriad at statud, darpariaeth statudol neu ddeddfwriaeth eilradd ("deddfwriaeth") yn cyfeirio at y fath ddeddfwriaeth a newidiwyd ac a ddaeth i rym o bryd i'w

gilydd ac at unrhyw ddeddfwriaeth sydd (naill ai gyda neu heb newidiadau) yn ail-ddeddfu, cadarnhau neu'n deddfu ar ffurf wedi ei ail-ysgrifennu unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath.